

GWEITHDREFN CWYNION GAN DRYDYDD PARTI			
Adran	Cynllunio Strategol		
Awdur	Cyfarwyddwr Cyswllt Cynllunio Strategol		
Awdurdodwyd gan:	Bwrdd yr Is-ganghellor		
Gweithredir gan:	Y Swyddog Cynllunio a Pherfformiad		
Cyfeirnod y weithdrefn:	PRSP1718005		
Gweithdrefn flaenorol:	Protocol i drydydd parti drafod mater gyda'r Brifysgol (Tachwedd 2008)		
Fersiwn rhif:	1	Pwyllgor Cymeradwyo:	Bwrdd yr Is-ganghellor
Dyddiad cymeradwyo:	17.04.18	Cofnod rhif:	17.100.06
Statws:	Cymeradwywyd	Dyddiad gweithredu:	Ebrill 18
Cyfnod cymeradwyo:	3 blynedd	Dyddiad adolygu:	Ebrill 21

1. Pwrpas y weithdrefn

- 1.1 Paratowyd y weithdrefn hon i egluro sut y gallai “trydydd parti” fynegi cwyn wrth y Brifysgol.
- 1.2 Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i sicrhau y gall unigolion sy'n dod i gysylltiad â'r sefydliad, ac sy'n anfodlon gyda'r rhyngweithio hwnnw, gael cyfle i sicrhau ymchwilio i'w cwyn. Lle bo'r Brifysgol yn canfod bod cyfiawnhad am gwyn mae'r fecanwaith hon hefyd yn darparu'r cyfle i'r Brifysgol ymateb a, lle bo'n briodol, gynnig datrysiad.

2. Sgôp y weithdrefn

- 2.1 Diffinnir “trydydd parti” at ddibenion y weithdrefn hon fel unigolyn nad yw'n gyflogai a delir, nad yw'n fyfyrwr cofrestredig nac yn unigolyn neu'n gwmni dan gytundeb i gyflawni gwaith ar ran y Brifysgol.
- 2.2 Mae'r enghreifftiau o'r achlysuron lle gallai unigolyn ddefnyddio'r weithdrefn hon yn cynnwys:
- a) lle bo unigolyn wedi ymgeisio am swydd yn y Brifysgol ac yn anfodlon gyda'r modd yr ymdriniwyd â'r cais;
 - b) lle bo gan unigolyn amheuaeth bod arferion cyflogaeth anghyfreithlon neu anfoesol yn cael eu defnyddio'n y Brifysgol; neu
 - c) lle bo gan unigolyn gwyn am ymddygiad y Brifysgol yng nghyswllt Safon Iaith y mae'n ofynnol i'r Brifysgol gydymffurfio ag ef;

ch) lle bo gan unigolyn reswm dros gredu bod y Brifysgol, neu aelod o staff yn y Brifysgol, wedi torri'r rheoliadau diogelu data cyffredinol.

2.3 Disgwylir i achwynydd, neu unigolyn sy'n gweithredu ar ran yr achwynydd, gyflwyno cwyn i'r Brifysgol cyn pen blwyddyn o ddod yn ymwybodol ynghylch y mater honedig.

3. Y weithdrefn

3.1 Gofynnir i drydydd parti'on sy'n dymuno gwneud cwyn i ysgrifennu'n ffurfiol at Swyddog Cynllunio a Pherfformiad y Brifysgol. Gofynnir i bob unigolyn nodi'n gryno ac yn fanwl, yn ysgrifenedig, beth yw sail eu cwyn a'r datrysiad a ddymunir.

3.2 Pan dderbynnir cwyn yn arferol anfonir cydnabyddiaeth at yr achwynydd cyn pen 5 diwrnod gwaith ar ôl derbyn eu llythyr.

3.3 Pan fo'r Swyddog Cynllunio a Pherfformiad yn derbyn cwyn cynhelir ymchwiliad a darperir ymateb yn unol â'r weithdrefn yn 3.6 isod.

3.4 Lle bo'r mater yn ymwneud â'r Is-ganghellor, cyfeirir y mater at Glerc y Bwrdd a wnaiff ofyn i Gadeirydd y Bwrdd enwebu aelod annibynnol o'r Bwrdd i ymchwilio i'r mater a darparu ymateb yn unol â'r weithdrefn yn 3.6 isod.

3.5 Lle bo'r mater yn ymwneud ag aelod o'r Bwrdd, gofynnir i'r Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd fel bo'n briodol ymchwilio i'r mater a darparu ymateb yn unol â'r weithdrefn yn 3.6 isod.

3.6 Yn dilyn ymchwiliad darperir ymateb cyn pen 28 diwrnod lle bynnag y bo'n bosibl. Lle gallai'r ymateb gymryd mwy na 28 diwrnod gwaith, bydd y Swyddog Cynllunio a Pherfformiad yn ysgrifennu at y trydydd parti i'w cynghori am y rheswm/rhesymau am hyn a darparu amserlen ddiwygiedig.

3.6.1 Bydd yr ymateb yn cynnwys canfyddiadau'r ymchwiliad a, lle y canfyddir bod cyfiawnhad am y gŵyn, darperir datrysiad a allai gynnwys, er enghraifft, cadarnhau newidiadau perthnasol i'r prosesau a'r gweithdrefnau mewnol, ymddiheuriad neu hyfforddiant i staff i sicrhau nad yw'r mater yn digwydd eto.

4. Anfodlonrwydd gyda'r ymateb

4.1 Os yw'r achwynydd yn parhau'n anfodlon ar ôl ystyried yr ymateb a ddarparwyd, bydd yn cael gwahoddiad i ysgrifennu at yr Is-ganghellor yn nodi'r sail am yr anfodlonrwydd sy'n parhau ac yn amlinellu'r camau unioni sy'n parhau i ymddangos yn rhesymol yn eu barn nhw dan yr amgylchiadau. Bydd yr Is-ganghellor yn ystyried y mater neu'n gofyn i uwch aelod staff arall wneud hynny a darparu ymateb i'r unigolyn. Bydd penderfyniad yr Is-ganghellor, neu benderfyniad yr enwebai, yn derfynol.

4.2 Lle bo'r gŵyn ym ymwneud â'r Is-ganghellor a bod y trydydd parti'n parhau'n anfodlon gyda'r ymateb a gafwyd gan aelod annibynnol y Bwrdd a benodwyd gan y Cadeirydd i ymchwilio i'r mater, gwahoddir y trydydd parti i ysgrifennu at Glerc y Bwrdd a fydd yn cyfeirio'r mater at y Cadeirydd a gofynnir i un ai'r Cadeirydd neu aelod o'r Bwrdd na fu'n ymwneud â'r gŵyn yn flaenorol adolygu'r achos. Bydd penderfyniad y Cadeirydd, neu benderfyniad ei enwebai, yn derfynol.

4.3 Lle bo'r gŵyn ym ymwneud ag aelod o'r Bwrdd (yn cynnwys y Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd) a bod y trydydd parti'n parhau'n anfodlon â'r ymateb a gawsant gan aelod

annibynnol y Bwrdd a benodwyd gan y Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd i ymchwilio i'r mater, gwahoddir y trydydd parti i ysgrifennu at Glerc y Bwrdd a fydd yn cyfeirio'r mater at y Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd (cyn belled nad yw'n gŵyn yn ymwneud â'r naill na'r llall) a gofynnir i un ai'r Cadeirydd neu aelod annibynnol o'r Bwrdd na fu'n ymwneud â'r gŵyn yn flaenorol i adolygu'r achos. Bydd penderfyniad y Cadeirydd, neu benderfyniad ei enwebai, yn derfynol.

5. Cyfeirio at bolisiau a gweithdrefnau eraill

5.1 Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol i unigolion nad oes ganddynt unrhyw ddull arall yn y polisiau a'r gweithdrefnau sy'n bodoli i ddatrys unrhyw bryder sydd ganddynt yn dilyn eu hymwneud â'r Brifysgol.

5.2 Mae gweithdrefnau'n bodoli eisoes ar gyfer yr isod:

- ymgeiswyr am le ar raglen astudio i gyflwyno apêl, os oes sail, trwy'r weithdrefn a weithredir gan y Swyddfa Derbyniadau;
- myfyrwyr (a'r rhai sydd wedi graddio nid mwy na 40 diwrnod cyn cyflwyno eu cwyn) i geisio datrys iad trwy'r Weithdrefn Cwynion gan Fyfyrwyr;
- staff i geisio datrys materion trwy'r weithdrefn achwyn berthnasol a weithredir gan yr Adran Adnoddau Dynol;
- staff, myfyrwyr neu unrhyw un dan gytundeb i weithio i'r Brifysgol sy'n medru troi at y Polisi Datgelu er Budd Cyhoeddus (Chwythu'r Chwiban) (manylion ar wefan y Brifysgol) mewn achos lle bo rheswm i amau bod y Brifysgol neu unrhyw un o'i staff yn ymwneud â gweithgareddau amhriodol neu anghyfreithlon.
- unigolion sydd â phryderon am aelodau staff neu fyfyrwyr sy'n agored i'r risg o gael eu tynnu i mewn i eithafiaeth dreisgar, ar sail gwybodaeth a dderbyniwyd neu ymddygiad maen nhw neu unigolyn arall wedi'i weld, lle gellir codi pryderon trwy gyfrwng Protocol Rhannu Gwybodaeth am Bobl Fregus y Brifysgol sy'n rhan o Bolisi Atal y Brifysgol (sydd ar gael ar wefan y Brifysgol neu gan y Cydlynnydd Atal).

6. Manylion cyswllt

Y Swyddog Cynllunio a Pherfformiad
Prifysgol Glyndŵr Wrecsam
Plas Coch
Ffordd yr Wyddgrug
Wrecsam LL11 2AW

E-bost: compliance@glyndwr.ac.uk